
**Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu eich adborth. Er mwyn anfon sylwadau atom neu am ragor o wybodaeth ewch i:**

www.btp.police.uk

BTPA British Transport Police Authority

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

# Cynllun Plismona
## Sector Cymru




HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG


**Cyswllt Rhanbarthol Sector Cymru:**
**Prif Uwcharolygydd Peter Davies,**
**Comander Rhanbarthol**
British Transport Police
Wales & Western Area HQ
1st Floor, The Axis
10 Holliday Street
Birmingham B1 1UP

**Cyswllt cenedlaethol:**
**Simon Peel**
Strategic Development Department
British Transport Police
Force Headquarters
25 Camden Road
London NW1 9LN

simon.peel@btp.pnn.police.uk


# 11/12

# Cynnwys


Rhagair gan Gadeirydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig **01**
Rhagair gan Brif Gwnstabl BTP **02**
Targedau cenedlaethol **03**
Sylwadau gan y Comander Rhanbarthol **06**
Targedau rhanbarthol **08**


# Rhagair




**Millie Banerjee**
Cadeirydd,
Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig


Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn wynebu blwyddyn brysur yn 2011/12. Hon fydd y flwyddyn lawn olaf cyn i'r Gemau Olympaidd gael eu cynnal yn Llundain, digwyddiad y bydd yr heddlu yn chwarae rhan weithredol bwysig ynddo. Mae plismona'r rheilffyrdd yn wyneb digwyddiad o'r fath bob amser yn her, ond mae BTP, o dan arweiniad y Prif Gwnstabl, Andy Trotter, mewn cyflwr da i chwarae ei ran yn y dasg o sicrhau Gemau cofiadwy a llwyddiannus.

**Eleni hefyd fydd blwyddyn gyntaf BTP o dan strategaeth newydd a fydd yn parhau tan 2014. Erys ein cenhadaeth graidd yn ddigyfnewid i raddau helaeth: anelwn at ddiogelu a gwasanaethu amgylchedd y rheilffyrdd a'i gymuned, gan sicrhau bod lefelau o amharu, troseddu ac ofn troseddau mor isel â phosibl.**

Yr amcanion strategol i gyflawni hyn yw:

1. Helpu i sicrhau bod systemau trafnidiaeth rheilffyrdd yn parhau i redeg
2. Helpu i wneud systemau trafnidiaeth rheilffyrdd yn fwy diogel
3. Rhoi gwerth am arian drwy welliant parhaus
4. Ennyn hyder mewn defnyddio systemau trafnidiaeth rheilffyrdd

Cafodd yr amcanion hyn eu datblygu drwy ymgynghoriad manwl â'r diwydiant rheilffyrdd a grwpiau teithwyr. Cynhaliodd Awdurdod yr Heddlu weithdy llwyddiannus ym mis Medi 2010; cafodd bron pob cwmni trên a chludo nwyddau ei gynrychioli, a bu'r drafodaeth yn fuddiol. Gwahoddwyd cydweithwyr i roi adborth ysgrifenedig ar ddrafftiau o'r cynllun cyn i Awdurdod yr Heddlu ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2011.

Un mater yr oedd bron pob ymateb i'r ymgynghoriad yn cytuno arno oedd y dylai BTP yn y dyfodol chwarae ei ran er mwyn lleihau unrhyw amharu ar wasanaethau rheilffyrdd. Er gwaethaf rhai heriau o ran datblygu dull cytûn, mae'n dda gennyf nodi ein bod wedi cynnwys targedau cenedlaethol a lleol yn y cynllun eleni ac y caiff cynllun peilot pellach ei gynnal yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd Awdurdod yr Heddlu yn monitro cynnydd o ran hyn gyda'r nod o ddatblygu targedau newydd yn y dyfodol.

Mae'n hysbys iawn bod perfformiad BTP wedi gwella'n fawr ers i Awdurdod yr Heddlu gael ei sefydlu yn 2004. Ategwyd hyn gan fuddsoddiad hael y diwydiant rheilffyrdd mewn cyllidebau refeniw cynyddol.

> Mae'n hysbys iawn bod perfformiad BTP wedi gwella'n fawr...

Fodd bynnag, bydd eleni yn wahanol; bydd yn rhaid i dargedau'r cynllun plismona yn y ddogfen hon gael eu cyflawni gyda llai o adnoddau ariannol. Ym mis Rhagfyr, cytunodd Awdurdod yr Heddlu i bennu cyllideb net o £198.8 miliwn ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – sef gostyngiad o 2.5% o'i chymharu â chyllideb y llynedd – ac i ddilyn y diwydiant o ran ymgorffori llawer o'r pwysau sylweddol a wynebwn. Bydd hyn yn gofyn am ymateb dychmygus gan BTP. Bydd yn rhaid iddo ddod o hyd i ffyrdd o fod yn fwy effeithlon heb fod yn llai effeithiol.

Y nod yn y pen draw ar gyfer y flwyddyn blismona 2011/12, ac yn wir y cyfnod cyfan a gwmpesir gan ein strategaeth, yw cynnal ein record o welliant cyson. Rwyf yn ffyddiog y bydd BTP yn ateb yr her.

# Rhagair

**Andrew Trotter**
Prif Gwnstabl, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig



Mae'r Cynllun Plismona hwn yn nodi sut y byddwn yn diogelu ac yn gwasanaethu'r rheilffordd, y bobl sy'n gweithio arni, a'r rhai sy'n ei defnyddio yn 2011/12.

**Mae'r blaenoriaethau a geir yn y cynllun hwn yn tanlinellu ein penderfyniad i leihau trosedd ac anhrefn, ymchwilio i droseddau a lleihau achosion o amharu ar y rhwydwaith. Byddwn yn weladwy a byddwn ar gael i'n cymuned a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i greu rhwydwaith sy'n ddiogel ac sy'n teimlo'n ddiogel i bawb sy'n ei ddefnyddio.**

Mae cyd-destun ariannol y cynllun hwn yn heriol; bydd angen i ni wneud mwy gyda llai eleni. Rydym yn ymwybodol o'r heriau economaidd sylweddol sy'n wynebu'r diwydiant rheilffyrdd ac yn deall bod angen darparu gwasanaeth sy'n rhoi'r gwerth gorau posibl. Mae cyllideb BTP wedi gostwng 3.3% mewn termau real er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant, a thystiolaeth o gynnydd sylweddol mewn effeithlonrwydd a gwerth am arian fydd yr arwydd ein bod wedi cyflawni'r targedau heriol hyn.

Mae'r cynllun hwn yn ategu ein Cynllun Strategol tair blynedd sy'n manylu ar y ffordd y byddwn yn gweithredu'r newid sefydliadol sydd ei angen er mwyn gwneud arbedion a gwelliannau yn y ffordd y darperir gwasanaethau yn erbyn cefndir y cyfyngiadau cyllidebol a wynebwn dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn adeiladu ar yr arbedion ariannol ac anariannol sylweddol a gyflawnwyd gennym dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae ein Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar gadw ein gallu rheng flaen ac ar yr un pryd wneud arbedion ariannol cynaliadwy. Byddwn yn sicrhau y caiff pob swyddog gwarant ei ddefnyddio ar ddyletswydd weithredol lle y bo modd, yn symleiddio lefelau rheoli, yn moderneiddio ein gweithlu, yn lleihau ein hystad ac yn datblygu ein gwaith cynllunio adnoddau a fydd yn ein galluogi i ailddosbarthu ein staff er mwyn rheoli'r galw cynyddol am ein gwasanaethau'n effeithiol.

Bydd pwysau gweithredol sylweddol yn 2011/12. Yn ogystal â'r bygythiadau terfysgol gan grwpiau o wrthwynebwyr yn Iwerddon a'r terfysgwyr rhyngwladol a grwpiau eithafol eraill, mae'r galw am adnoddau o ran gemau pêl-droed a digwyddiadau mawr yn fwy nag erioed ac mae'r cynnydd o hyd ym mhris copr yn golygu y bydd lladradau ceblau yn parhau'n her fawr.

Mae targedau cynllun plismona 2011/12 yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf yn ôl yr hyn a ddywedwyd gennych. Ar ôl ymgynghori â'r diwydiant rheilffyrdd, staff y rheilffyrdd a grwpiau teithwyr, cytunwyd ar y themâu allweddol canlynol:

- **Helpu i sicrhau bod y rheilffordd yn parhau i redeg**
- **Helpu i wneud y rheilffordd yn fwy diogel**
- **Rhoi gwerth am arian drwy welliant parhaus**
- **Ennyn hyder mewn defnyddio'r rheilffordd**

Mae'r cynllun hwn yn nodi ein targedau gweithredol penodol i ategu'r themâu hyn, a fydd, ynghyd â'r gwelliannau gweithredol a nodir yn ein Cynllun Strategol, yn gwireddu ein gweledigaeth o ddarparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i bawb sy'n defnyddio'r rhwydwaith ac yn gweithio arno. Mae pob un o'n Rhanbarthau plismona wedi pennu targedau lleol hefyd i ategu'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn a gafodd eu llunio'n ofalus mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod data o ansawdd da ar gael i'n galluogi i werthuso cynnydd yn erbyn ein cynllun.



# Targedau cenedlaethol

## Helpu i sicrhau bod y rheilffordd yn parhau i redeg

### Troseddau sy'n ymwneud ag amharu

**Lleihau nifer y troseddau sy'n ymwneud ag amharu o gymharu â'r lefel a gofnodwyd yn 2010/11**

Mae lleihau achosion o amharu a'r effeithiau gweithredol ac ariannol andwyol cysylltiedig yn flaenoriaethau allweddol i deithwyr, staff a'r diwydiant rheilffyrdd. Eleni mae BTP wedi pennu targed i leihau'r troseddau hynny (troseddau sy'n ymwneud â cheblau, tresmasu, difrod troseddol, camddefnyddio croesfannau a throseddau ar deithiau) sy'n amharu ar y rheilffordd. Caiff mannau lle gwelir nifer fawr o achosion eu targedu drwy gynlluniau datrys problemau lleol y cytunir arnynt rhwng Rhanbarthau BTP a chwmnïau rheilffyrdd.

### Marwolaethau

**Dylai pob achos o farwolaeth nad yw'n amheus gael ei glirio o fewn 90 munud ar gyfartaledd**

Bob blwyddyn mae BTP yn ymdrin â thua 200 o farwolaethau nad ydynt yn amheus ar y rheilffordd. Caiff ein gallu i reoli'r digwyddiadau hyn yn drwyadl ac adfer gwasanaeth arferol y rhwydwaith mor fuan â phosibl ei gydnabod yn eang fel arfer gorau ac mae'n rhan bwysig o'r gwasanaeth o safon uchel a ddarperir gan BTP.

## Helpu i wneud y rheilffordd yn fwy diogel

### Troseddau hysbysadwy

**Lleihau nifer y troseddau hysbysadwy o gymharu â'r lefel a gofnodwyd yn 2010/11**

Mae lleihau troseddau hysbysadwy yn flaenoriaeth allweddol i BTP. Er gwaethaf gostyngiad sylweddol o 24% yn nifer y troseddau hysbysadwy dros y chwe blynedd diwethaf, mae rhanddeiliaid wedi dweud bod gostyngiadau pellach a chanfod y rhai sy'n gyfrifol yn parhau'n flaenoriaeth bennaf iddynt. Nid yw'r targed hwn yn cynnwys troseddau a godir gan yr heddlu (pob trosedd sy'n ymwneud â chyffuriau a meddiant arfau ymosodol).

## Ymosodiadau ar staff

**Lleihau nifer yr ymosodiadau ar staff o gymharu â'r lefel a gofnodwyd yn 2010/11**

Mae staff y rheilffyrdd yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod y rheilffyrdd yn parhau i redeg heb amharu ac mae ganddynt hawl i weithio heb ofn. Mae BTP wedi gweithio'n ddiwyd i ddwyn i gyfrif y rhai sy'n cyflawni troseddau yn erbyn staff ac ar yr un pryd sicrhau gostyngiad yn y troseddau hyn. Bydd y targed hwn yn helpu i sbarduno gostyngiad pellach yn 2011/12.

## Troseddau treisgar a rhywiol a lladradau

**Cynnal neu wella'r gyfradd ganfod ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol a lladradau difrifol**

Mae troseddau treisgar a rhywiol a lladradau yn cael effaith ddifrifol ar ddioddefwyr. Mae BTP wedi lleihau'r troseddau hyn 12% ers 2007/08. Y gyfradd ganfod ar gyfer 2010/11 oedd 38%. Bydd y targed hwn yn helpu i sbarduno gwelliant yn y gyfradd ganfod yn 2011/12 er mwyn sicrhau bod mwy o droseddwyr yn mynd gerbron llys.

# Rhoi gwerth am arian drwy welliant parhaus

## Gwerth am arian

- **Lleihau nifer y swyddogion mewn rolau cynorthwyol sefydliadol ym Mhencadlys yr Heddlu o leiaf 10%**

Mae sicrhau bod adnoddau gweithredol BTP yn canolbwyntio ar y rheng flaen yn elfen allweddol o wella presenoldeb a sicrhau gwelliannau pellach o ran gwerth am arian. Bydd y targed hwn yn ailgyfeirio adnoddau gweithredol o rolau cynorthwyol sefydliadol tuag at blismona rheng flaen a chyflawni targedau'r cynllun plismona a blaenoriaethau gweithredol eraill.

- **Lleihau gwariant ar gostau nad ydynt yn gostau staff fel cyfran y costau staff o leiaf 1.5 pwynt canrannol**

Mae costau nad ydynt yn gostau staff yn cyfrif am 25.5% o gostau staff heddluoedd ar gyfartaledd, yn ôl Proffiliau Gwerth am Arian 2010/11 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Er mai 31.3% yw canran BTP, nid yw'n cyfrif am sefyllfa BTP o ran talu TAW a gweithdrefnau cyfrifyddu cyfalaf gwahanol; ar ôl cyfrif am y rhain, y ffigur gwirioneddol yw 23.4% - sy'n cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae BTP yn benderfynol o wneud gwelliannau gyda tharged i leihau costau nad ydynt yn gostau staff 1.5 pwynt canrannol a dychwelyd arbedion i'r rheng flaen er mwyn canolbwyntio ar wella perfformiad, presenoldeb ac effeithiolrwydd gweithredol ac ar yr un pryd ystyried yr angen am ddiogelu gwariant mewn meysydd sy'n cyfrannu at gynhyrchiant ac effeithlonrwydd staff.

## Salwch

**Dylai diwrnodau salwch cyfartalog cyflogai fod yn llai na 7.7 diwrnod**

Mae BTP wedi gwneud gwelliannau enfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf i leihau absenoldeb oherwydd salwch o 10.4 diwrnod salwch y cyflogai yn 2007/08 i 7.7 yn 2010/11. Mae'r gostyngiad hwn mewn cyfraddau salwch yn golygu cynnydd sylweddol o ran yr adnoddau sydd ar gael a gwerth am arian. Bydd y targed hwn yn sbarduno gwelliannau pellach yn hyn o beth.

# Ennyn hyder mewn defnyddio'r rheilffordd

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Lleihau nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o gymharu â'r lefel a gofnodwyd yn 2010/11**

Cydnabyddir yn eang bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benderfynydd allweddol o ran hyder ymhlith teithwyr a staff y rheilffyrdd, a chaiff ei nodi'n gyson fel blaenoriaeth bwysig drwy arolygon o'r ddau grŵp. Mae BTP yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chwmnïau rheilffyrdd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae wedi sicrhau gostyngiad o 16% o gymharu â'r achosion a gofnodwyd yn 2010/11 â'r rhai yn 2007/08. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys troseddau a godir gan yr heddlu sydd wedi cael eu nodi a'u cofnodi o ganlyniad uniongyrchol i weithgarwch yr heddlu, gan gynnwys patrolau.

## Presenoldeb

**Cynyddu cyfran ein hadnoddau a neilltuir ar gyfer Timau Plismona Cymdogaethau a phlismona ymatebol rhwng 8pm ac 1am**

Mae presenoldeb yr heddlu yn ffactor allweddol o ran ennyn hyder y cyhoedd. Mae'n bwysig bod cymaint o swyddogion, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a chwnstabliaid cynorthwyol â phosibl yn cael eu defnyddio mewn rolau sy'n weladwy i'r cyhoedd ar yr adegau pan fo eu hangen fwyaf. Nod y targed hwn yw ceisio cynyddu canran yr adnoddau a ddefnyddir fel rhan o blismona ymateb a Thimau Plismona Cymdogaethau rhwng 8pm ac 1am.

## Amseroedd ymateb


**Ymateb i o leiaf 80% o'r holl achosion uniongyrchol o fewn 20 munud**

Mae ymateb yn gyflym i achosion brys a galwadau am gymorth yn hollbwysig. Mae'r targed hwn yn gyson â thargedau cenedlaethol ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i wasanaeth.

# Sylwadau



**Prif Uwcharolygydd Peter Davies**
Comander Rhanbarthol Sector Cymru




Mae Sector Cymru yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnal diogelwch teithwyr, staff a chymunedau sy'n defnyddio rhwydwaith rheilffyrdd Cymru.

**Mae gennym 76 o swyddogion yr heddlu, naw aelod o staff yr heddlu a 19 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a leolir mewn naw gorsaf heddlu ledled Cymru.**

Gweithiwn yn agos gyda'n partneriaid gan gynnwys Network Rail, cwmnïau trên, Passenger Focus, heddluoedd y Swyddfa Gartref, Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn ac eraill i sicrhau amgylchedd diogel ar y rheilffyrdd, sy'n rhydd o amharu ac ofn troseddau. Er mwyn parhau i wella ffocws ac atebolrwydd, rwyf yn cadeirio Partneriaeth Strategol Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a chynrychiolwyr y diwydiant rheilffyrdd.

Gyda'n gilydd, rydym wedi cael cryn lwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf a, gyda'ch help chi, anelwn at gyflawni llawer mwy yn 2011/12. Drwy ein partneriaeth â Passenger Focus, rydym wedi ymdrin â chanfyddiadau teithwyr ynglŷn â diogelwch ac wedi rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n defnyddio'r rhwydwaith ac yn gweithio arno drwy batrolau penodol a gweithrediadau mewn lleoliadau allweddol ar yr adegau cywir – yn enwedig gyda'r hwyr.

Mewn ymateb i'n hanghenion plismona a galwadau'r gymuned, symudwyd un o'n Timau Plismona Cymdogaethau o Gasnewydd i Gaerdydd er mwyn mynd i'r afael â chrwydriaid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus a helpu i wneud gwahaniaeth y gellir ei fesur i borth prifddinas Cymru.

Yn yr un modd, mae'r tîm sefydledig ym Mhontypridd yn parhau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymosodiadau ar staff a phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol a oedd yn amlwg ar nifer o lwybrau. Mewn partneriaeth â Trenau Arriva Cymru, drwy gyflwyno a gorfodi'r Cod Ymddygiad sy'n gwahardd pobl rhag mynd ag alcohol ar drenau, ynghyd â'r patrolau heddlu gweladwy iawn sydd wedi'u targedu, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau ar staff. Fe'i cyflwynwyd ar lwybr Cwm Rhondda yn 2007 ac mae wedi cael ei ymestyn i Rwydwaith Cymoedd De Cymru.

> Drwy ein partneriaeth â Passenger Focus, rydym wedi ymdrin â chanfyddiadau teithwyr ynglŷn â diogelwch...

Byddwn yn parhau i gymryd camau cadarnhaol yn erbyn y rhai sy'n difrïo neu'n bygwth staff y rheilffyrdd, gan greu amgylchedd diogelach fyth lle y gallant ddod i'r gwaith heb ofn.

Hefyd, byddwn yn cydweithio'n agos â'r diwydiant rheilffyrdd yn 2011/12 i fabwysiadu cynlluniau datrys problemau mewn ymateb i achosion o amharu ar seilwaith rheilffyrdd, yn enwedig lladradau metel a cheblau o'r rhwydwaith.



Gyda niferoedd mawr o gefnogwyr pêl-droed yn parhau i deithio ar y trên, mae mynd i'r afael â'r lleiafrif gwrthgymdeithasol hefyd yn flaenoriaeth.

Mae Sector Cymru yn cynnal nifer o ddigwyddiadau mawr ac mae plismona digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm yn dod â'i heriau penodol ei hun. Gweithiwn yn agos gyda'r cwmnïau trên, y stadiwm a chydweithwyr o heddluoedd lleol i sicrhau bod Caerdydd a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael y gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol posibl. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd y gall gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau gynnig lefel fwy effeithiol ac ariannol hyfyw o blismona ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gynnal y gwasanaeth o safon y mae gan ein teithwyr a'n staff yr hawl i'w ddisgwyl. Bydd y mesurau y mae'r cynllun plismona hwn yn eu rhoi ar waith yn cyflawni hyn mewn ffordd a fydd yn atgyfnerthu ein rôl ymhellach fel y gwasanaeth heddlu arbenigol i'r rheilffyrdd.

> Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd y gall gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau gynnig lefel fwy effeithiol ac ariannol hyfyw o blismona...

# Targedau rhanbarthol




## Sector Cymru
2011/12

### Ymosodiadau ar staff

**Cynnal neu wella'r gyfradd ganfod ar gyfer troseddau sy'n ymwneud ag ymosod ar staff**

Mae ymosodiadau ar staff yn cael effaith fawr ar hyder staff y rheilffyrdd. Cyflawnodd Sector Cymru gyfradd ganfod o 74% yn 2010/11 a bydd yn gwneud pob ymdrech i gynnal y safon uchel hon a dod â'r troseddwyr hynny sy'n ymosod ar staff y rheilffyrdd gerbron llys.

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Gweithredu o leiaf chwe chynllun datrys problemau, y bydd pedwar ohonynt yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng 8pm ac 1am**

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith uniongyrchol ar hyder teithwyr a staff y rheilffyrdd. Mewn ymgynghoriad â phartneriaid yn y diwydiant, bydd Sector Cymru yn defnyddio cynlluniau datrys problemau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ganolbwyntio ar broblemau sy'n codi gyda'r hwyr.

"Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gynnal y gwasanaeth o safon y mae gan ein teithwyr a'n staff yr hawl i'w ddisgwyl. Bydd y mesurau y mae'r cynllun plismona hwn yn eu rhoi ar waith yn cyflawni hyn mewn ffordd a fydd yn atgyfnerthu ein rôl ymhellach fel y gwasanaeth heddlu arbenigol i'r rheilffyrdd."

**Prif Uwcharolygydd Peter Davies**
Comander Rhanbarthol Sector Cymru